CHARTERED SOCIETY
OF PHYSIOTHERAPY

CYMDEITHAS SIARTREDIG
FFISIOTHERAPI



# Safonau gwasanaeth ffisiotherapi cyhyrysgerbydol

Darpariaeth gwasanaethau ffisiotherapi cyhyrsysgerbydol MSK yn y Deyrnas Unedig ar gyfer oedolion 16 oed a throsodd

**Fersiwn ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau MSK**

# Cyflwyniad

Beth yw Safonau Gwasanaeth Ffisiotherapi Cyhyrsysgerbydol (MSK)? Mae angen i ni sicrhau fod safonau uchel o driniaeth a rheolaeth ffisiotherapi yr un fath ledled gwasanaethau ffisiotherapi MSKI cyhoeddus a phreifat. Mae'r safonau hyn yn cefnogi gwasanaethau i sicrhau'r ansawdd gwasanaeth gorau posibl.

Mae cyflyrau cyhyrysgerbydol yn cynnwys y rhai sy'n effeithio ar y cymalau, esgyrn, cyhyrau, asgwrn y cefn a chyflyrau yn effeithio ar nifer o rannau neu systemau o'r corff (tebyg i arthritis gwynegol a chlefydau meinwe gysylltiol). Cafodd wyth safon ansawdd eu llunio sy'n nodi'r hyn sy'n arfer da, fel bod pobl gyda chyflwr MSK yn derbyn y gofal a'r driniaeth orau bosibl.

Mae'r safonau hyn yn cynnwys gwasanaethau MSK ar gyfer unrhyw un dros 16 oed yn y Deyrnas Unedig a'u teuluoedd a gofalwyr. Maent yn gwneud yn siŵr fod y driniaeth a rheolaeth ffisiotherapi a gaiff pobl yn seiliedig ar arfer gorau a thystiolaeth, anghenion unigol cleifion ac atgyfeiriad effeithlon i arbenigwyr a gweithwyr gofal iechyd eraill os oes angen.

Wrth lunio'r safonau hyn, defnyddiwyd tystiolaeth ansawdd uchel tebyg i hynny gan y Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Iechyd a Gofal (NICE). Mae NICE yn darparu canllawiau, cyngor a gwasanaethau gwybodaeth cenedlaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol.

Rydym wedi gweithio gyda gweithgor yn cynnwys ymchwilwyr, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, rheolwyr gwasanaeth ac aelod o'r cyhoedd, ac ymgynghori â phroffesiynau eraill, grwpiau, elusennau a phobl gyda phrofiad bywyd o gyflyrau MSK.

## Ar gyfer pwy mae'r safonau hyn?

- **Ffisiotherapyddion i'w helpu i wella** ansawdd y driniaeth a'r rheolaeth a ddarparant;
- **Pobl gyda chyflwr MSK** fel y gwyddant pa safonau triniaeth a rheolaeth y dylent eu disgwyl gan wasanaethau ffisiotherapi;
- **Darparwyr gwasanaethau MSK**, y grwpiau a sefydliadau ac unigolion hynny sy'n rhedeg gwasanaethau ac angen dynodi darpariaeth briodol;
- **Y rhai sy'n cynllunio ac ariannu gwasanaethau MSK** a chanfod pa rai yw'r gwasanaethau gorau posibl.

## Pam ein bod angen Gwasanaethau Ansawdd?

Mae cyflyrau MSK yn gyffredin íawn, gan effeithio ar bron 19 miliwn o bobl ar draws y Deyrnas Unedig yn y flwyddyn 2017 a hwy yw'r prif achos pam fod pobl yn byw gydag anabledd ym mhob rhan o'r byd. Arweiniodd amodau MSK at golli bron 9 miliwn o ddyddiau gwaith yn y Deyrnas Unedig yn y flwyddyn 2019/2020, yn ail yn unig i straen, iselder neu bryder ac yn cyfrif am o leiaf 14% o ymgynghoriadau mewn gofal sylfaenol.

Gall pobl gyda chyflyrau MSK ganfod fod eu cyflwr yn effeithio ar wahanol agweddau o'u bywydau. Hefyd, gall llawer o bobl gyda chyflyrau MSK fod â mwy nag un cyflwr hirdymor. Gall hyn olygu fod rheoli eu hiechyd yn fwy cymhleth a gall effeithio ar eu hansawdd bywyd. Mae cyflyrau MSK yn cynyddu a gan fod pobl yn byw'n hirach disgwyliwn y bydd nifer y rhai yr effeithir arnynt yn cynyddu am y dyfodol rhagweladwy. Mae ffisiotherapyddion MSK yn grŵp proffesiynol pwysig sy'n ymwneud â brysbennu, asesu, triniaeth a rheolaeth pobl gyda chyflyrau MSK.

Nid yw'r safonau hyn i gael eu gweld fel targedau yn unig ond maent yno i wella profiad gofal dydd-i-ddydd ar gyfer pobl gyda chyflyrau MSK. Cawsant eu datblygu yn defnyddio gwaith arall o amrywiaeth o ffynonellau ar ofal MSK.

**Gellir defnyddio safonau a mesurau ansawdd ar gyfer amrywiaeth o ddibenion yn cynnwys:**

- **Mesur ansawdd gofal**
- **Deall sut i wella gofal**
- **Arddangos ansawdd gofal**
- **Gosod blaenoriaethau ar gyfer a chefnogi gwella**

Mae safonau ansawdd hefyd yn helpu'r rhai sy'n ariannu gwasanaethau MSK i wneud penderfyniadau gwell pan ddaw i ariannu'r gwasanaethau hyn, a byddant yn cefnogi pobl sydd eisiau cael mynediad i wasanaethau i gyfleu'r hyn a ddisgwyliant o wasanaethau.

Drwy'r ddogfen hon defnyddiwn y term 'unigolyn/pobl gyda chyflwr MSK' i gynnwys cleifion sydd eisoes yn derbyn gofal yn ogystal â'r bobl hynny gyda chyflwr MSK a all fod yn rheoli eu hunain gyda chymorth neu nad ydynt wedi gofyn am ofal ar gyfer eu cyflwr.



# Yr wyth safon ansawdd a gynhwysir yn y ddogfen hon yw:

**Safon ansawdd 1:** Asesu, diagnosis, cynllunio rheolaeth ac adolygu **6**

**Safon ansawdd 2:** Ffisiotherapi wedi'i bersonoli **8**

**Safon ansawdd 3:** Hunanreoli â chymorth **10**

**Safon ansawdd 4:** Cyfathrebu **12**

**Safon ansawdd 5:** Llwybrau rheoli integredig **14**

**Safon ansawdd 6:** Iechyd y boblogaeth **16**

**Safon ansawdd 7:** Gwerthuso, archwilio ac ymchwil **18**

**Safon ansawdd 8:** Llywodraethiant clinigol **20**

# **Safon ansawdd 1:** Asesu, diagnosis, cynllunio rheolaeth ac adolygu

**Caiff pobl sydd â chyflwr MSK gynnig triniaeth a rheolaeth sy'n amserol, trwyadl ac sy'n rhoi ystyriaeth i'w holl anghenion. Mae hyn yn golygu y cânt eu cynnwys mewn penderfyniadau a gaiff eu rhannu am eu gofal eu hunain, gan helpu i ddatblygu cynllun ffisiotherapi a gynlluniwyd gyda nhw ac wrth asesu pa mor dda, neu beidio, y mae'r cynllun wedi gweithio.**

## Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth ffisiotherapi yn...

- **Cynnal a chofnodi** asesiad personol, yn cynnwys anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol a chymdeithasol/gwaith/addysg;
- **Rhoi ystyriaeth i** unrhyw gyflyrau ac anghenion diwylliannol eraill sydd gan yr unigolyn;
- **Cynnwys** arbenigwyr gofal iechyd eraill os oes angen;
- **Sicrhau y caiff unrhyw** benderfyniadau am driniaeth ac ôl-driniaeth eu gwneud ynghyd â'r person sydd â chyflwr MSK;
- **Sicrhau y caiff teuluoedd** a gofalwyr eu cynnwys mewn penderfyniadau a gwneud penderfyniadau os yw'r person gyda chyflwr MSK yn dymuno hynny;
- **Defnyddio technoleg** yn cynnwys cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd, fel sy'n briodol, i fonitro, asesu a chefnogi'r person gyda chyflwr MSK, ond yn rhoi ystyriaeth i ddewisiadau'r unigolyn;
- **Sicrhau bod** y cynllun ffisiotherapi yn diwallu anghenion yr unigolyn ac yn defnyddio adborth gan gleifion.

## Beth mae'r safon yma yn ei olygu i fi?

- **Gall pobl gyda chyflyrau MSK** brofi effaith sylweddol ar wahanol agweddau o'u bywydau fel canlyniad i'w cyflwr.

- **Mae'r asesiad**, diagnosis, cynllun ffisiotherapi ac adolygiad yn ystyried iechyd corfforol ac iechyd meddwl yr unigolyn yn ogystal â'u hanghenion cymdeithasol, diwylliannol a gwaith/addysg.

- **Rhoi ystyriaeth** i holl anghenion a dewisiadau yr unigolyn.

- **Rhoi ystyriaeth** i gyflyrau eraill a all yr unigolyn fod â nhw, tebyg i glefyd cardiofasgwlaidd, diabetes, clefyd yr ysgyfaint a llesgedd ac effaith hyn ar beth y gall pobl ei wneud a sut y maent yn rheoli eu hiechyd eu hunain.

- **Galluogi gweithwyr proffesiynol** gofal iechyd eraill i gymryd rhan mewn asesu a rheoli.

- **Mae ffyrdd o ganfod os yw pobl mewn risg** o ganlyniadau gwael o'u cyflwr neilltuol. Mae pobl gyda risg isel yn bennaf angen dull gweithredu hunanreoli gyda chymorth tra bod y rhai mewn risg uwch angen triniaeth fwy dwys. Mae'r dull hwn yn gwella deilliannau ar gyfer pobl ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau gofal iechyd.



# Safon ansawdd 2:
## Ffisiotherapi wedi'i bersonoli

**Caiff pobl sydd â chyflyrau MSK gynnig ffisiotherapi wedi'i bersonoli ac amserol gyda mynediad cyfartal a sydd wedi'i deilwra i'w anghenion, dewisiadau a nodau unigol.**

### Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth ffisiotherapi yn....

- **Gwneud yn siŵr** fod triniaeth a rheolaeth yn ymwneud â'r person cyfan, yn seiliedig ar eu hanghenion unigol ac yn cynnwys cynllun ffisiotherapi personol;
- **Defnyddio'r driniaeth** a rheolaeth orau sydd ar gael;
- **Anelu i gael** pobl yn ôl i'w gweithgareddau a swyddi arferol;
- **Defnyddio triniaeth** a rheolaeth sy'n ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Mae hyn yn cynnwys lleoliad, amser apwyntiadau a sut y rhoddir triniaeth a rheolaeth.

### Beth mae'r safon yma yn ei olygu i fi?

- **Dylai pobl gyda chyflwr MSK** ddisgwyl i'w ffisiotherapi gael ei seilio ar asesiad personol a chynllun ffisiotherapi sy'n iawn iddyn nhw (safon 1).
- **Caiff triniaeth hefyd ei seilio** ar beth yw'r arfer gorau cyfredol ac ar dystiolaeth o ansawdd da.
- **Mae gwasanaethau ffisiotherapi** yn gwrando ar ac yn cytuno gyda'r person gyda chyflwr MSK beth yw eu nod ar gyfer ffisiotherapi.

- **Bydd gwasanaethau ffisiotherapi** yn anelu i helpu pobl i gymryd rhan yn neu ailgydio mewn gweithgareddau sy'n bwysig i'r unigolyn. Gall gweithgareddau pwysig gynnwys cymryd rhan mewn addysg, gwaith a swyddi bywyd eraill, tebyg i fod yn ofalwr, dilyn hobïau a diddordebau a chymdeithasu.

- **Caiff math ac amseriad triniaethau** (p'un ai wyneb yn wyneb neu drwy fideo, sesiynau grŵp, unigol neu ymweliadau cartref) eu penderfynu rhwng y gwasanaeth ffisiotherapi a'r person gyda chyflwr MSK ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil ansawdd da.

- **Gall y ffisiotherapydd ddefnyddio technoleg**, tebyg i ffôn symudol, e-bost ac apiau ond bydd yn rhoi ystyriaeth i ddewisiadau personol yr unigolyn, yn cynnwys mynediad i dechnoleg a'r gallu i'w defnyddio.



# Safon Ansawdd 3:
## Hunanreoli â chymorth

**Caiff pobl sy'n cyflwyno gyda chyflwr MSK gynnig hunanreoli â chymorth fel rhan o'u cynllun ffisiotherapi i adnabod a datblygu eu gallu i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.**

### Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth ffisiotherapi yn...

- **Cynnwys yr unigolyn gyda** chyflwr MSK wrth wneud penderfyniadau am gynllunio eu triniaeth. Gelwir hyn yn wneud penderfyniadau ar y cyd;
- **Rhoi ystyriaeth i ba mor dda** mae'r person yn deall eu cyflwr, cyfyngiadau'r driniaeth a'r rheolaeth sydd ar gael a lefel y cymorth sydd ganddynt pan fyddant yn gwneud cynllun hunanreoli;
- **Sicrhau fod unrhyw gymorth** a roddir yn seiliedig ar dystiolaeth ansawdd da;
- **Cynnwys teulu**, gofalwyr a grwpiau cymunedol i helpu cefnogi'r person, lle mae hynny'n briodol;
- **Rhoi cynllun hunanreoli** i'r unigolyn gyda chyflwr MSK i'w helpu i drin eu cyflwr a gofyn am fwy o help os oes angen.

## Beth mae'r safon yma yn ei olygu i fi?

- **Mae hunanreoli yn helpu pobl** i reoli eu cyflwr MSK a'u llesiant eu hunain. Mae hunanreoli â chymorth yn golygu fod ffisiotherapyddion yn gweithio gyda phobl i ddatblygu eu gallu i drin eu hiechyd a'u llesiant eu hunain drwy ddarparu cymorth a gafodd ei deilwra i'w hanghenion.

- **Bydd pobl gyda chyflwr MSK** â rhan wrth ddatblygu eu cynllun hunanreoli. Bydd y cynllun yn rhoi ystyriaeth i lefel parodrwydd a gallu yr unigolyn i hunanreoli. Caiff cynllun hunanreoli ysgrifenedig neu ddigidol ei baratoi. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar sut i hunanreoli a phryd a sut i geisio help pellach gan wasanaethau iechyd neu ymarferwyr.

- **Dylai'r unigolyn gyda chyflwr MSK** hefyd gael gwybodaeth ar ble y gallant gael help gyda hunanreoli. Gall hyn gynnwys grwpiau lleol, elusennau a sefydliadau a hefyd, os yn briodol, adnoddau digidol tebyg i wefannau ac apiau.

- **Gall y cynllun hunanreoli** gynnwys teulu, cyfoedion, cyfeillion a chymunedau yr unigolyn gyda chyflwr MSK, os yw'r person iddynt eisiau iddynt fod â rhan.



# Safon Ansawdd 4: Cyfathrebu

**Caiff cyfathrebu gyda phobl gyda chyflwr MSK ei gynnig mewn ffordd hygyrch, a chaiff gwybodaeth ei phersonoli i'w hanghenion a dewisiadau.**

## Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth ffisiotherapi yn...

- **Cyfathrebu gyda phobl** gyda chyflwr MSK mewn ffyrdd sy'n rhwydd eu deall, prydlon ac yn galluogi'r person i rannu penderfyniadau am eu triniaeth;
- **Sicrhau fod gan ffisiotherapyddion** y sgiliau angenrheidiol i alluogi cyfathrebu da;
- **Helpu pobl gyda MSK** i wybod beth i'w ddisgwyl o driniaeth ffisiotherapi ac i ganfod eu ffordd drwy'r system gofal iechyd;
- **Darparu gwybodaeth** mewn fformatau/ieithoedd y gall y claf eu deall;
- **Cynnwys aelodau teulu,** gofalwyr a phobl eraill a ddewiswyd gan yr unigolyn mewn cyfathrebu ac wrth rannu penderfyniadau ar driniaeth a gofal.

## Beth mae'r safon yma yn ei olygu i fi?

- **Dylai fod yn rhwydd cael mynediad** i a deall yr holl gyfathrebu gyda'r gwasanaeth ffisiotherapi.
- **Mae cyfathrebu rhwydd ei deall**, sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion a dewisiadau yr unigolyn, yn galluogi pobl gyda chyflwr MSK i gymryd rhan lawn yn eu rheolaeth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth i helpu'r person i ddeall beth i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth ffisiotherapi a'r llwybr triniaeth a rheolaeth (y llwybr rheolaeth yw pan fo mwy nag un adran neu ymarferydd iechyd yn gysylltiedig).

- **Dylai gwybodaeth gan yr holl adrannau** a staff fod yn gyson.
- **Bydd yr holl gyfathrebu yn rhoi ystyriaeth** i ddewisiadau personol yr unigolyn ar gyfer cyfathrebu, yn cynnwys mynediad i a'r gallu i ddefnyddio technoleg. Gall y gwasanaeth ddefnyddio technoleg, tebyg i ffôn symudol, e-bost ac apiau ond defnyddir dulliau cyfathrebu eraill os oes angen.
- **Os yw'r claf yn dymuno,** gall aelodau teulu, gofalwyr a chyfeillion gymryd rhan mewn cyfathrebu a rhannu gwneud penderfyniadau fel sydd angen.



# Safon ansawdd 5: Llwybrau rheoli integredig

**Mae pobl gyda chyflyrau MSK yn derbyn triniaeth a rheolaeth deg ac wedi eu personoli ac a gafodd eu hintegreiddio ar draws pob gosodiad a gwasanaeth perthnasol.**

## Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth ffisiotherapi yn...

- **Sicrhau fod gan bob person gyda chyflwr MSK** fynediad i wasanaethau a thriniaeth fel yr amlinellir yn eu cynllun ffisiotherapi personol;
- **Sicrhau y caiff pob triniaeth a gwasanaeth** eu cydlynu'n dda ac y caiff gwybodaeth gywir ei throsglwyddo rhwng yr holl staff sy'n cymryd rhan;
- **Cynnwys sefydliadau eraill tebyg** i wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymunedol, hamdden ac elusennau yn seiliedig ar gynllun triniaeth a rheolaeth yr unigolyn;
- **Sicrhau fod staff ffisiotherapi** yn gwybod sut i atgyfeirio cleifion at arbenigwyr eraill, y caiff y trefniadau ôl-driniaeth priodol eu rhoi ar waith a bod yr unigolyn yn gwybod sut i gael mynediad i ofal brys;
- **Cynnwys pobl gyda chyflyrau MSK**, y cyhoedd a chymunedau wrth ddatblygu llwybrau a gwasanaethau triniaeth a rheolaeth.

## Beth mae'r safon yma yn ei olygu i fi?

- **Bydd pobl gyda chyflyrau MSK** yn derbyn ffisiotherapi yn seiliedig ar eu cynllun ffisiotherapi personol.
- **Bydd llwybrau triniaeth a rheolaeth** ar gyfer llawer o bobl gyda chyflyrau MSK yn cynnwys mwy nag un adran, gwasanaeth neu ymarferydd gofal iechyd.
- **Lle mae'r llwybr yn cynnwys** mwy nag un adran neu ymarferydd, caiff triniaeth a rheolaeth eu cydlynu ar draws y llwybr. Yn ychwanegol, caiff gwybodaeth amserol a chywir ei chyfnewid rhwng gwasanaethau ac ymarferwyr.
- **Dylai'r gweithlu ffisiotherapi** gymryd rhan uniongyrchol wrth ddatblygu llwybrau triniaeth a rheolaeth ar gyfer pobl gyda chyflyrau MSK.
- **Dylai cleifion, y cyhoedd a chymunedau** hefyd fod â chyfle i gyfrannu at ddatblygu llwybrau triniaeth a rheolaeth ar gyfer pobl gyda chyflyrau MSK.



# Safon ansawdd 6: Iechyd y boblogaeth

**Mae'r gweithlu ffisiotherapi yn gwybod am ac yn ymwneud â darparu blaenoriaethau iechyd y boblogaeth ac mewn hyrwyddo strategaethau MSK ataliol i sicrhau'r iechyd a llesiant gorau posibl a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.**

## Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth ffisiotherapi yn...

- **Gweithio mewn partneriaeth** gyda sefydliadau eraill i helpu cyflawni blaenoriaethau iechyd lleol a chenedlaethol;
- **Tynnu sylw at risgiau** iechyd gwael a gweithio gydag eraill i hyrwyddo ataliaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd;
- **Defnyddio'r dystiolaeth** orau sydd ar gael i hyrwyddo iechyd a llesiant;
- **Gweithio gyda sefydliadau eraill** i danlinellu pwysigrwydd ymddygiad iach mewn rheoli cyflyrau MSK;
- **Gweithio gyda sefydliadau eraill** i hyrwyddo pwysigrwydd gwella iechyd yn eu cymunedau lleol;
- **Defnyddio technoleg,** fel sy'n briodol, i wella iechyd yn y gymuned yn ehangach.

## Beth mae'r safon yma yn ei olygu i fi?

- **Mae ymagwedd iechyd** y boblogaeth yn anelu i wella iechyd, hyrwyddo llesiant a gostwng anghydraddoldeb iechyd ar draws cymunedau cyfan, nid dim ond y rhai sy'n mynychu ar gyfer gofal iechyd. Dylai gwasanaethau gefnogi cymunedau lleol i ddeall mwy am gyflawni a chynnal iechyd MSK da heb i fod angen i bobl fynychu'r gwasanaeth.

- **Dylai gwasanaethau ffisiotherapi** fod yn weithgar wrth hyrwyddo iechyd a llesiant da ar gyfer pobl gyda chyflyrau MSK a'r gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys amlygu'r ffactorau hynny a all fod ag effaith niweidiol ar iechyd a llesiant a chyflyrau MSK. Mae ffactorau a all gyfrannu at iechyd a llesiant yn cynnwys diet, rheoli pwysau, gweithgaredd corfforol ac ysmygu.

- **Bydd y gweithlu ffisiotherapi** yn hyrwyddo'r ffactorau hynny o fudd i bobl gyda chyflyrau MSK.

- **Bydd y gwasanaeth hefyd** yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau i sicrhau y caiff iechyd MSK hirdymor ei gydnabod fel rhan bwysig o iechyd y boblogaeth.

- **Mae ffactorau** a all gyfrannu at iechyd a llesiant gwael yn gwahaniaethu rhwng gwahanol grwpiau o bobl a gall arwain at anghydraddoldeb. Bydd y gwasanaeth ffisiotherapi yn gweithio gyda phobl gyda chyflyrau MSK i ailgynllunio gwasanaethau ffisiotherapi i ostwng anghydraddoldeb.

- **Gall y gwasanaeth ffisiotherapi** awgrymu adnoddau digidol (ffôn symudol, e-bost, apiau, gwefannau) i wella iechyd yn y gymuned leol, ond bydd yn sicrhau nad yw'r rhai gyda mynediad neu wybodaeth digidol cyfyngedig dan anfantais.



# **Safon ansawdd 7:** Gwerthuso, archwilio ac ymchwil

**Mae gwasanaethau ffisiotherapi MSK yn defnyddio data i gynnal gwerthusiad, archwilio, ymchwil a gwella ansawdd i ddeall anghenion pobl gyda chyflyrau MSK, gwella ansawdd gwasanaethau, sicrhau'r deilliannau a phrofiad gorau posibl a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.**

## Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth ffisiotherapi yn...

- **Defnyddio gwybodaeth** (data) ansawdd da i ddeall anghenion pobl gyda chyflwr MSK, canfod pa mor dda mae'r gwasanaeth yn gweithio, pa effaith a gaiff y driniaeth a rheolaeth, profiadau'r unigolyn o ffisiotherapi a gwirio am anghydraddoldeb mewn gofal iechyd;

- **Casglu gwybodaeth** (data) ar gyfer diben penodol a sicrhau y caiff y casglu a'r dadansoddi eu cynllunio;

- **Bod â systemau** effeithlon o gofnodi, mesur ac edrych ar wybodaeth, a chyflwyno hyn mewn ffordd sy'n dynodi sut y gellir gwella ansawdd gofal;

- **Gweithio gyda phobl** gyda chyflyrau MSK i werthuso, gwella a newid gwasanaethau ffisiotherapi er gwell;

- **Sicrhau y caiff arfer da a gwersi** a ddysgwyd eu rhannu yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol;

- **Seilio'r gwasanaeth** ar dystiolaeth ac ymchwil ansawdd da.

## Beth mae'r safon yma yn ei olygu i fi?

- **I sicrhau fod y gwasanaeth a'r gofal gorau ar gael,** dylai gwasanaethau ffisiotherapi gymryd rhan weithgar wrth werthuso eu gwasanaeth drwy wella ansawdd, gwerthuso, archwilio ac ymchwil.
- **Mae hyn yn golygu y dylai pobl gyda chyflyrau MSK** ddisgwyl i'r gwasanaeth holi am y gwasanaeth a dderbyniant ac os yw ffisiotherapi yn eu helpu i gyflawni nodau eu cynllun ffisiotherapi. Yn aml caiff hyn ei wneud drwy ddefnyddio arolygon neu holiaduron bodlonrwydd.
- **Dylid defnyddio'r** wybodaeth hon i ddynodi meysydd ar gyfer gwella'r gwasanaeth neu ar gyfer defnyddio triniaethau a gweithdrefnau, y gwelwyd eu bod yn gweithio.
- **Mae gan bobl gyda chyflwr MSK** wybodaeth bwysig ac unigryw am amodau a gwasanaethau MSK a dylent fod â rhan mewn gwerthuso ac mewn cyd-gynhyrchu gwelliannau ac ailgynllunio gwasanaethau a llwybrau.
- **Dylai gwasanaethau ffisiotherapi** rannu enghreifftiau o arfer da gydag adrannau a sefydliadau eraill. Dylai gwasanaethau ar gyfer pobl gyda chyflyrau MSK bob amser gael eu llywio gan arfer gorau a thystiolaeth.
- **Dylai gwasanaethau ffisiotherapi** sicrhau y caiff canfyddiadau gwerthuso, archwilio ac ymchwil eu rhannu a'u bod yn rhan o ymarfer bob dydd.

# **Safon ansawdd 8:** Llywodraethiant clinigol

**Mae gan wasanaethau ffisiotherapi MSK fframwaith llywodraethiant clinigol gyda set ategol o ddogfennau polisi a gweithdrefn i weithredu a monitro llywodraethiant clinigol.**

## Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth ffisiotherapi yn…

- **Sicrhau fod yr holl staff ffisiotherapi** yn gyfarwydd gyda llywodraethiant eu sefydliad ac unrhyw beth penodol i wasanaethau MSK;

- **Sicrhau fod pob aelod o staff** yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau o fewn eu sefydliad;

- **Bod â gweithdrefnau** sy'n nodi mewn ffordd glir a manwl sut y caiff gwasanaethau eu darparu a'u monitro;

- **Bod â rhaglen** i edrych ar a gwneud yn siŵr fod gwasanaethau yn cyrraedd y safonau a ddisgwylir ac yn arwain at welliant parhaus;

- **Cynnwys pobl gyda chyflyrau MSK** wrth wella'r gwasanaeth (cyd-gynhyrchu).

## Beth mae'r safon yma yn ei olygu i fi?

- **Mae llywodraethiant clinigol** yn system y mae sefydliadau gofal iechyd drwyddi yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaeth yn barhaus. Mae'n sicrhau amgylchedd gofal iechyd diogel ac effeithlon ar gyfer cleifion a staff.

- **Dylai pobl gyda chyflyrau MSK** ddisgwyl i wasanaethau fod â fframweithiau llywodraethiant clinigol, gyda pholisïau a gweithdrefnau i sicrhau fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r fframwaith.

- **Dylai staff ffisiotherapi** fod yn gyfarwydd gyda fframwaith llywodraethiant clinigol y sefydliad a pholisïau a gweithdrefnau gwasanaeth ffisiotherapi MSK. Dylent hefyd wybod eu cyfrifoldeb unigol mewn gweithredu llywodraethiant clinigol.

- **Dylai phobl gyda phrofiad bywyd** o gyflyrau MSK, y cyhoedd a chymunedau gael cyfle i gyfrannu at ddatblygu polisi, cynllunio a gweithdrefnau'n gysylltiedig â llywodraethiant clinigol.



# Gall y dolenni hyn fod yn ddefnyddiol i chi

NIHR Moving Forward: A guide for the public (2020) *https://evidence.nihr.ac.uk/wp-content/uploads/2020/09/Moving-Forward-FINAL-August-2020_Pages.pdf*

Health Education England (2018) Health literacy 'how to' guide *https://library.nhs.uk/wp-content/uploads/sites/4/2020/08/Health-literacy-how-to-guide.pdf*

National Institute for Health and Care Excellence (NICE) *https://www.nice.org.uk/guidance/conditions-and-diseases/musculoskeletal-conditions*

National Institute for Health and Care Excellence (NICE) 2021 Shared decision making. *https://www.nice.org.uk/guidance/ng197*

National Institute for Health and Care Excellence (NICE) 2019 Patient experience in adult NHS services *https://www.nice.org.uk/guidance/qs15*

Versus Arthritis (2016) Working with arthritis *https://www.versusarthritis.org/media/2071/working-with-arthritis-policy-report.pdf*

Patient Advice and Liaison Services (PALS) *https://www.nhs.uk/nhs-services/hospitals/what-is-pals-patient-advice-and-liaison-service/*

Patient Advice and Support Services (PASS) *https://www.careinfoscotland.scot/topics/your-rights/patient-advice-and-support-service-pass*

The Health Foundation (2021) Quality improvement made simple: What everyone should know about healthcare quality improvement *https://www.health.org.uk/sites/default/files/QualityImprovementMadeSimple.pdf*

# Diolchiadau

## Awduron

**Dave Green** – Cynrychiolydd cyhoeddus ar weithgar safonau MSK

**Annette Bishop** – Ymchwilydd a gomisiynwyd

## Adolygwyr

**Partneriaid Profiad Bywyd** – Mark Agathangelou,

**Vicky B** (talfyrwyd i fod yn anhysbys),

**Forzana Nasir**

CHARTERED SOCIETY
OF PHYSIOTHERAPY

CYMDEITHAS SIARTREDIG
FFISIOTHERAPI

3rd Floor South
Chancery Exchange
10 Furnival Street
Llundain London, EC4A 1AB

**www.csp.org.uk**
**enquiries@csp.org.uk**
**+44 (0)207 306 6666**

**Y Gymdeithas Ffisiotherapi Siartredig (CSP)**
yw'r corff proffesiynol, addysgol ac undeb llafur ar gyfer y 60,000 o ffisiotherapyddion siartredig, myfyrwyr ffisiotherapi a gweithwyr cymorth y Deyrnas Unedig.

001943 SPED 03/2022